## PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG

**Dyddiad:** Dydd Mercher 16 Mehefin 1999

**Amser:** 11am hyd 12.15pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## COD YMDDYGIAD AR BENODIADAU CYHOEDDUS

### Diben

Cytuno ar ddau enwebiad gan y Pwyllgor i oruchwylio penodiadau cyhoeddus ym maes pwnc y Pwyllgor.

### Amseru

Brys. Ar draws y Cynulliad cyfan mae angen penderfynu ar dros 140 o benodiadau cyn diwedd Ionawr. Bydd y rhai a enwebir gan y pwyllgor yn rhan hanfodol o'r broses.

### Cefndir

Ar 25 Mai, mabwysiadodd y Cynulliad God Ymarfer ar weithdrefnau penodiadau cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae paragraff 5 y Cod yn nodi y bydd y pwyllgor pwnc perthnasol, i ymdrin â'r penodiadau cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdanynt, yn penodi dau aelod o'r Pwyllgor (gydag o leiaf un ohonynt yn aelod o blaid wleidyddol wahanol i Ysgrifennydd y Cynulliad) i ystyried penodiadau gydag Ysgrifennydd y Cynulliad.

Ceir copi o'r Cod Ymarfer ynghlwm.

### Ystyriaeth

Mae'r Cynulliad yn gyfrifol am amrediad ac amrywiaeth eang o benodiadau cyhoeddus yng Nghymru - cyfanswm o tua 600. Mae'r rhain yn amrywio o gynghorau iechyd cymunedol lleol (cyfanswm o 22 gyda dau aelod yr un wedi'u penodi gan y Cynulliad), pwyllgorau ymgynghorol arbenigol a chyrff gweithredol mawr gyda chyllidebau o filiynau o bunnoedd. Mae'r Cod yn nodi'r egwyddorion fydd yn sail ar gyfer gwneud penodiadau a manylion y broses benodi. Mae'r Prif Ysgrifennydd wedi gwneud ymrwymiad y bydd gweithrediad ac effeithiolrwydd y Cod

yn cael eu hadolygu'n barhaol.

**Rôl y rhai a enwebir gan y pwyllgorau pwnc**

Mae'n rhaid i'r Cynulliad sicrhau cydbwysedd rhwng y pryder na ddylai penodiadau cyhoeddus ddibynnu ar un blaid wleidyddol a'r angen am atebolrwydd clir dros benderfyniadau a pharchu preifatrwydd ymgeiswyr. Dyma pam fod y Cod yn caniatáu i'r pwyllgor pwnc enwebu dau, gydag o leiaf un ohonynt o blaid wleidyddol wahanol i Ysgrifennydd y Cynulliad, i fod yn rhan o'r broses o wneud penodiadau unigol.

Y dull a argymhellir dan y Cod yw bod y ddau a enwebir yn derbyn yr un papurau ag Ysgrifennydd y Cynulliad dan sylw, er mwyn iddynt wybod am y broses gyfan. Bydd hyn yn cynnwys y cyngor gwreiddiol gan swyddogion ar y camau arfaethedig i lenwi swydd wag. Bydd gweddill y broses yn cael ei chyflawni yn unol â'r dull gweithredu a'r amserlen y cytunir arnynt.

Mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus wedi pwysleisio pwysigrwydd cwblhau prosesau penodi yn ddiymdroi a mabwysiadu dull sy'n gymesur â'r corff dan sylw. Mae cymesuredd yn faes sy'n achosi pryder ar hyn o bryd i Bwyllgor Neill. Bydd dyletswyddau'r rhai a enwebir gan bwyllgorau pwnc yn cynnwys gwneud sylwadau diymdroi i Ysgrifennydd y Cynulliad ar y cyngor y maent yn ei dderbyn ar gyfer pob penodiad a sicrhau eu bod yn fodlon fod y dull y bwriedir ei ddefnyddio ym mhob achos yn gymesur ac yn cydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Cod yn hyblyg yn yr ystyr ei fod yn disgrifio gweithdrefn 'lawn' a fydd yn addas ar gyfer y penodiadau proffil mwyaf i gyrff gweithredol, ond mae'n darparu ar gyfer mabwysiadu gweithdrefnau wedi'u mireinio ar gyfer penodiadau â llai o broffil. Bydd y weithdrefn lawn yn cynnwys y rhai a enwebir gan y pwyllgor pwnc yn y panel cyfweld terfynol. Ar gyfer penodiadau â llai o broffil, gellid cynnal cyfweliadau ar lefel swyddogol neu â phanel llai. Bydd yr union drefn ym mhob achos yn cael ei phennu ar y cychwyn.

**Rôl y pwyllgor pwnc cyfan**

Bydd holl aelodau'r pwyllgor pwnc yn chwarae rhan wrth godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yngln â phwysigrwydd cael ymgeiswyr o'r radd flaenaf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn eu maes, ac annog ymgeiswyr da o faes eang i wneud cais am benodiadau penodol. Bydd y swyddi sy'n codi, ynghyd â manylion swydd a pherson, yn cael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd yn ogystal ag unrhyw hysbysebu wedi'i dargedu neu ganfasio ymgeiswyr. Gall aelodau enwebu unigolion ar unrhyw amser; gofynnir i'r rhai a enwebir neu'r rhai sy'n eu henwebu eu hunain lenwi ffurflen gais a gedwir ar gronfa ddata ganolog y Cynulliad. Fodd bynnag, defnyddir dull cyson o asesu pob ymgeisydd am benodiadau unigol.

Mae asesu perfformiad, yn enwedig perfformiad Cadeiryddion cyrff cyhoeddus, yn faes pwysig arall lle dylai pwyllgorau pwnc, maes o law, allu cynorthwyo wrth fonitro'r amcanion a'r targedau a bennir ar gyfer y cyrff dan sylw a chyfraniad y rhai a benodir at eu cyflawni.

**Rôl yr Uned Penodiadau Cyhoeddus**

Bydd yr Uned Penodiadau Cyhoeddus yn fodlon hyrwyddo sesiynau briffio manylach neu drafodaethau ar y cyd ar gyfer y rhai a enwebir ar gyfer pwyllgorau pwnc ar y broses o wneud penodiadau yn gyffredinol. Bydd gan yr Uned rôl i'w chwarae hefyd wrth gefnogi'r gweithdrefnau cyfan er mwyn sicrhau bod y cod yn cael ei ddefnyddio'n gyson.

**Cydymffurfio**

Mae'r pwerau i wneud penodiadau cyhoeddus i'w cael mewn amrediad o ddeddfwriaethau. Dan God y Cynulliad, y Prif Ysgrifennydd sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau y dilynir y gweithdrefnau, a gall y Prif Ysgrifennydd ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros benodiadau unigol i Ysgrifennydd y Cynulliad. Ymdrinnir â materion uniondeb ym mharagraffau 13-18 y Cod.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r angen i enwebu dau aelod o'r pwyllgor pwnc.

**Themâu Trawsbynciol**

Mae egwyddorion cyfle cyfartal yn rhan hanfodol o'r Cod (gweler paragraffau 11-12).

**Gweithredu**

Gofynnir i'r Pwyllgor enwebu dau aelod i oruchwylio'r penodiadau cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdanynt.